# Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012

**2012 dccc 2**

*Hysbysiadau cosbau penodedig*

**12 Y pŵer i gynnig cosbau penodedig am dramgwyddau yn erbyn is-ddeddfau penodol**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i is-ddeddfau a wnaed gan awdurdod deddfu o dan y deddfiadau a restrir yn Rhan 2 o Atodlen 1 (is-ddeddfau y caniateir dyroddi cosbau penodedig mewn perthynas â hwy).

(2) Pan fo gan swyddog a awdurdodwyd gan awdurdod deddfu reswm dros gredu bod person wedi cyflawni tramgwydd yn erbyn is-ddeddf a wnaed gan yr awdurdod hwnnw, i'r swyddog roi hysbysiad i'r person hwnnw yn cynnig y cyfle iddo fodloni unrhyw atebolrwydd i gollfarn am y tramgwydd drwy dalu cosb benodedig.

(3) Pan fo swyddog a awdurdodwyd gan gyngor cymuned reswm dros gredu bod person wedi cyflawni tramgwydd yn ei ardal yn erbyn is-ddeddf a wnaed gan awdurdod deddfu heblaw'r cyngor cymuned, i'r swyddog roi hysbysiad i'r person hwnnw yn cynnig y cyfle iddo fodloni unrhyw atebolrwydd i gollfarn am y tramgwydd drwy dalu cosb benodedig.

(4) Mae cosb benodedig o dan yr adran hon yn daladwy i awdurdod y swyddog a roddodd yr hysbysiad.

(5) Pan roddir hysbysiad i berson o dan yr adran hon mewn perthynas â thramgwydd –

(a) ni chaniateir cychwyn achos am y tramgwydd cyn diwedd y cyfnod o 14 o ddiwrnodau ar ôl dyddiad yr hysbysiad, a

(b) ni chaniateir collfarnu'r person am y tramgwydd os bydd y person yn talu'r gosb benodedig cyn diwedd y cyfnod hwnnw.

(6) Rhaid i hysbysiad o dan y rheoliad hwn roi'r manylion hynny am yr amgylchiadau yr honnir eu bod yn ffurfio tramgwydd fel sy'n angenrheidiol i esbonio paham fod tramgwydd wedi digwydd.

(7) Rhaid i hysbysiad o dan yr adran hon hefyd ddatgan –

(a) o fewn pa gyfnod, yn rhinwedd is-adran (5), ni ddygir achos am y tramgwydd;

(b) swm y gosb benodedig;

(c) enw'r person y caniateir i'r gosb benodedig gael ei thalu iddo a'r cyfeiriad lle y caniateir iddi gael ei thalu.

(8) Heb ragfarnu taliad drwy unrhyw ddull arall, caniateir talu cosb benodedig drwy ragdaliad a phostio llythyr sy'n cynnwys swm y gosb (mewn arian parod neu fel arall) i'r person y cyfeirir ato yn yr hysbysiad yn y cyfeiriad a roddir ynddo.

(9) Os anfonir llythyr bernir bod taliad wedi ei wneud ar yr amser y byddid yn traddodi'r llythyr hwnnw yn nhrefn arferol y post.

(10) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau bennu ffurf hysbysiad o dan yr adran hon.

(11) Mewn unrhyw achos mae tystysgrif –

(a) sy'n honni ei bod wedi ei llofnodi ar ran prif swyddog cyllid awdurdod, a

(b) sy'n datgan y daeth neu na ddaeth taliad o gosb benodedig i law erbyn y dyddiad a bennwyd yn y dystysgrif,

yn dystiolaeth o'r ffeithiau a ddatganwyd.

(12) Yn yr adran hon –

ystyr "swyddog awdurdodedig", mewn perthynas ag awdurdod, yw –

(a) cyflogai i'r awdurdod a awdurdodwyd yn ysgrifenedig gan yr awdurdod at ddibenion rhoi hysbysiadau o dan yr adran hon,

(b) unrhyw berson y mae ganddo, yn unol â threfniadau a wnaed gyda'r awdurdod, y swyddogaeth o roi hysbysiadau o'r fath ac sydd wedi ei awdurdodi'n ysgrifenedig gan yr awdurdod i gyflawni'r swyddogaeth, ac

(c) unrhyw gyflogai i berson o'r fath sydd wedi ei awdurdodi'n ysgrifenedig gan yr awdurdod at ddibenion rhoi hysbysiadau o'r fath;

ystyr "prif swyddog cyllid", mewn perthynas ag awdurdod, yw'r person sydd â'r cyfrifoldeb am faterion ariannol yr awdurdod.

(13) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ragnodi'r amodau sydd i'w bodloni gan berson cyn y caiff cyngor cymuned awdurdodi'r person yn ysgrifenedig at ddibenion rhoi hysbysiadau o dan yr adran hon.

## 13 Swm cosb benodedig

(1) Caiff awdurdod deddfu –

(a) pennu swm y gosb benodedig sy'n daladwy yn unol â hysbysiad o dan adran 12;

(b) pennu symiau gwahanol mewn perthynas ag is-ddeddfau gwahanol.

(2) Os na phennir unrhyw swm felly, swm y gosb benodedig yw £75.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth mewn cysylltiad â'r pwerau o dan is-adran (1).

(4) Caiff Rheoliadau o dan is-adran (3), yn benodol –

(a) ei gwneud yn ofynnol bod swm a bennir o dan is-adran (1)(a) yn dod o fewn ystod a ragnodir yn y rheoliadau;

(b) cyfyngu ar y rhychwant y caiff awdurdod wneud darpariaeth o dan is-adran (1)(b) a chyfyngu ar yr amgylchiadau pan all wneud hynny.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn roi swm arall yn lle'r swm a bennir am y tro yn is-adran (2).

## 14 Y pŵer i ofyn am enw a chyfeiriad mewn cysylltiad â chosb benodedig

(1) Os bydd swyddog awdurdodedig yn bwriadu rhoi hysbysiad i berson o dan adran 12, caniateir i'r swyddog ei gwneud yn ofynnol bod y person yn rhoi ei enw a'i gyfeiriad.

(2) Mae person yn cyflawni tramgwydd os yw'r person hwnnw –

(a) heb esgus rhesymol yn methu â rhoi ei enw a'i gyfeiriad pan fo hynny'n ofynnol, neu

(b) os yw'n rhoi enw neu gyfeiriad anwir neu anghywir wrth ymateb i ofyniad o dan yr is-adran honno.

(3) Mae person sy'n euog o dramgwydd o dan is-adran (2) yn atebol ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

(4) Yn yr adran hon mae i "swyddog awdurdodedig" yr un ystyr ag sydd ganddo yn adran 12.

## 15 Y defnydd o dderbyniadau am gosbau penodedig

(1) Rhaid i'r awdurdod roi sylw i'r dymunoldeb o ddefnyddio ei dderbyniadau am gosbau penodedig at ddibenion mynd i'r afael ag unrhyw niwsans y gwnaed isddeddf gan yr awdurdod er mwyn ei atal.

(2) Ystyr "derbyniadau am gobau penodedig" yw symiau a dalwyd i awdurdod yn unol â hysbysiadau o dan adran 12.

## 16 Y pŵer i ddiwygio Rhan 2 o Atodlen 1

Caiff Gweinidogion Cymru drwy orchymyn ddiwygio Rhan 2 o Atodlen 1 (isddeddfau y caniateir dyroddi hysbysiadau cosbau penodedig mewn perthynas â hwy) drwy ychwanegu at y rhestr o ddeddfiadau neu dynnu oddi arni, neu drwy ddiwygio'r math o awdurdod a gaiff gynnig hysbysiadau cosbau penodedig.

## 17 Swyddogion Cymorth Cymunedol etc

(1) Mae Deddf Diwygio'r Heddlu 2002 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 4 (pwerau sy'n cael eu harfer gan heddlu sy'n sifiliaid) –

(a) ym mharagraff 1ZA(3) ar ôl "1972" mewnosoder "or under section 12 of the Local Government Byelaws (Wales) Act 2012";

(b) ym mharagraff 1ZA(5)(a) ar ôl "1972" mewnosoder "or to which section 12 of the Local Government Byelaws (Wales) Act 2012 applies".

(3) Yn Atodlen 5 (pwerau sy'n cael eu harfer gan bersonau achrededig) –

(a) ym mharagraff 1A(3) ar ôl "1972" mewnosoder "or under section 12 of the Local Government Byelaws (Wales) Act 2012";

(b) ym mharagraff 1A(5)(a) ar ôl “1972” mewnosoder “or to which section 12 of the Local Government Byelaws (Wales) Act 2012”.